

Dyddiad/Date: 15
Gorffennaf 2020

Gofynnwch am/Ask for:

Rhif ffôn/Telephone

Eich Cyf/Your Ref

Fy Nghyf/My Ref:

e-bost/e-mail

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa'r Doc, Dociau'r Barri, Y Barri, CF63 4RT
Ffôn: (01446) 700111

The Vale of Glamorgan Council
Dock Office, Barry Docks, Barry CF63 4RT
Telephone: (01446) 700111

www.bromorgannwg.gov.uk



At sylw perthnasau a ffrindiau preswylwyr Cartrefi Gofal Bro Morgannwg

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae'r timau gofal preswyl ym Mro Morgannwg wedi bod yn gweithio'n galed iawn i leihau effaith coronafeirws yn ein cartrefi. Diolch i'r cyfyngiadau caeth sydd wedi bod ar waith gennym, mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi nad ydym wedi cael unrhyw achosion newydd a gofnodwyd ers sawl wythnos.

Felly, ar ôl cadw at y canllawiau wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu llacio, rydyn ni o'r farn mai dyma'r adeg iawn i lacio'r cyfyngiadau yn ein cartrefi gofal i alluogi perthnasau neu ffrindiau agos i ymweld.

Mae'n rhaid i ni flaenoriaethu diogelwch ein preswylwyr a chydweithwyr yn ein cartrefi a byddwn yn parhau i wneud popeth yn ein gallu i leihau'r risg o drosglwyddo. Gan gadw hyn mewn cof, rydym yn cynllunio dull graddol o ailgyflwyno ymwelwyr.

Bydd y mathau o ymweliadau a fydd yn cael eu cynnig fel a ganlyn:

Cam	Math o ymweliad	Cyfyngiadau
1	Cyfyngiadau'r cyfnod cloi ar waith.	Ymweliadau hanfodol yn unig fel y'u diffinnir gan y protocol ymweld.
2	Ymweliad ffenestr lle gall yr ymwelydd siarad â'i berthynas / ffrind drwy ffenestr agored ar lawr gwaelod y cartref; neu Ymweliad awyr agored (yr ardd) mewn ardal ddynodedig i ymwelwyr a gaiff ei glanhau ar ôl pob ymweliad	Rhaid cynnal pellter o ddau fetr drwy gydol yr ymweliad Uchafswm o ddau ymwelydd (o'r un cartref) Dim plant bach
3	Ymweliadau yn yr ardd fel y disgrifiwyd uchod; neu Ymweliad dan do gan un person dynodedig	Uchafswm o bedwar ymwelydd (o'r un cartref) Dim plant bach
4	Amserlen reoledig o ymweliadau yn yr ardd a dan do	Caniateir plant gyda chytundeb Rheolwr y Cartref Gofal

Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, bydd nifer o fesurau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr ymweliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English

Wrth i'r sefyllfa wella rydym yn gobeithio llacio ein trefniadau ymweld ymhellach yn unol â gwahanol gamau'r protocol ymweld. Gan y bydd hyn yn cael ei lywio gan ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r amgylchiadau unigol ym mhob cartref gofal, bydd hyn yn cael ei benderfynu ar wahân gan bob cartref gofal. Ar hyn o bryd, rydym yn gallu rhoi gwybod o ddydd Gwener 17 Gorffennaf y bydd holl gartrefi gofal Cyngor Bro Morgannwg yn symud o gam 1 i gam 2 y protocol ymwelwyr.

Bydd angen i ymweliadau gael eu trefnu ymlaen llaw gan y perthynas nesaf a ddylai gysylltu â'r cartref yn uniongyrchol. Gan fod ymweliadau wedi'u cyfyngu i un yr wythnos i ddechrau, y perthynas agosaf ddylai benderfynu pwy sy'n ymweld pryd a gwneud trefniadau yn unol â hynny. Ni fydd ymweliadau yn yr ardd yn digwydd oni bai bod y tywydd yn caniatáu.

I gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau i ail-gyflwyno ymweliadau â'n cartrefi gofal, ewch i wefan y Cyngor. (www.valeofglamorgan.gov.uk/Coronavirus) Noder os yw'r sefyllfa'n gwaethygu yna efallai y bydd angen ailgyflwyno'r cyfyngiadau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau cymdeithasol ac rydym yn gobeithio y bydd pob un o'n trigolion a'u teuluoedd yn croesawu'r newyddion hyn.

Yn gywir

**Lance Carver,
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**